Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

SWYDDOGOL OFFICIAL

DRIVE

## Proffil y Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Arweinydd Drive Cymru Gyfan |
| **Gradd:** | PO 4/5 |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cymunedau, Partneriaethau ac Atal |
| **Yn gyfrifol am:** | Dd/G |
| **Cydgysylltu â:** | Pennaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) a SCHTh Diogelu De Cymru; Pennaeth Gwasanaethau a Gomisiynwyd, SCHTh De Cymru, Drive Canolog; Partneriaid Cyflawni Drive Lleol; Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru; Cynrychiolwyr Caffael a Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, Cynghorwyr/Cydlynwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Rhanbarthol, Cynrychiolwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, y Cyhoedd, Sefydliadau, Asiantaethau a Phartneriaethau Allanol |
| **Lefel Fetio Ofynnol:** | MV/SC – Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | Hydref 2025 |

**MAE HON YN SWYDD SY'N WLEIDYDDOL GYFYNGEDIG**

| | |
|---|---|
| **Diben y Rôl** | Bydd Arweinydd Drive Cymru Gyfan yn goruchwylio'r broses o roi safleoedd peilot newydd ar waith ar gyfer Drive yng Nghymru, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot gwreiddiol a'r gwaith dilynol o ehangu'r prosiect yn ardal Heddlu De Cymru. Er y caiff y swydd ei chynnal gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru i sefydlu rhwydweithiau lleol er mwyn cefnogi'r broses o roi Drive ar waith mewn ardaloedd peilot a datblygu model Comisiynu tymor hwy.<br>Bydd Arweinydd Drive Cymru Gyfan yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Drive lleol ledled Cymru a dod â'i wybodaeth ei hun am waith amlasiantaethol, datblygu modelau a mynd i'r afael â VAWDASV er mwyn sicrhau bod Drive yn cyd-fynd â'r rhain ac yn addasu'n effeithiol i bob cyd-destun lleol ac yn hwyluso prosesau cydweithio amlasiantaethol effeithiol, i roi Drive ar waith yn ei ardal leol. Bydd gan y rôl swyddogaeth ganolog yng Nghymru, gan gydlynu rhwydwaith sy'n dod â phartneriaid allweddol a data ynghyd, er mwyn monitro hynt y broses weithredu a chynnig fforwm i ymdrin â materion ac i rannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth.<br>Bydd Arweinydd Drive Cymru Gyfan yn cefnogi cydweithwyr Drive lleol drwy sicrhau bod y fforymau amlasiantaethol a'r arferion gwaith cywir yn cael eu datblygu ac yn gweithio, a bod lefel uchel o ffocws a chefnogaeth yn cael ei rhoi i Drive gan randdeiliaid allweddol ledled Cymru. Mae'r gwaith o sicrhau bod Drive yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus yn y tymor byr a'i fod yn cael ei gynllunio, ei lywodraethu ac yn cael digon o adnoddau ar gyfer yr hirdymor yn ganolog i'r rôl, gan greu model cynaliadwy y gellir ei gyflwyno ar raddfa wahanol a'i gynnal ledled Cymru.<br>Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda chydweithwyr Comisiynu, Caffael (a Gwasanaethau Cyfreithiol cysylltiedig) ar draws Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, yr Heddlu a phartneriaid comisiynu eraill i ddatblygu model comisiynu cynaliadwy a chosteffeithiol ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar werth am arian, cysondeb y gwasanaeth a sicrhau ansawdd. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys meithrin cydberthnasau â phartneriaid allweddol a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r broses o ddatblygu manyleb, model, costau cysylltiedig, a pharatoi ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | cyfleoedd comisiynu tymor hwy. Bydd deiliad y swydd yn mapio rhaglen Drive yng nghyd-destun darpariaeth ehangach i gyflawnwyr ledled Cymru ac yn cynnig model perchnogaeth briodol, mewn perthynas â chyllid a llywodraethu, ymysg partneriaid strategol VAWDASV allweddol. Dylai hyn gynnwys model ariannu gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol a llywodraeth genedlaethol fel y bo'n briodol.<br>Bydd deiliad y swydd yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Drive yng Nghymru drwy lywio model comisiynu ac ariannu cadarn sy'n ymgorffori'r rhaglen o fewn darpariaeth VAWDASV ehangach ac sy'n ategu rhaglennni eraill i gyflawnwyr cam-drin domestig.<br><br>**Cyd-destun y Rôl:**<br><br>Nod Prosiect Drive yw newid ymddygiad cyflawnwyr cam-drin domestig niwed uchel a risg uchel, drwy gyfuno gwaith rheoli achosion dwys a chamau gweithredu amlasiantaethol cydgysylltiedig. Datblygwyd y model gan Bartneriaeth Drive sy'n cynnwys Respect, SafeLives a Social Finance. Er mwyn lleihau nifer y dioddefwyr cam-drin domestig, mae angen lleihau nifer y cyflawnwyr. Ein nod yw newid naratif y cyhoedd o 'pam nad yw hi'n gadael' i 'pam nad yw ef yn stopio?'<br>Mae Prosiect Drive yn gweithio gyda chyflawnwyr trais a cham-drin domestig niwed uchel a risg uchel – sef y bobl sy'n peri'r risg fwyaf o niwed difrifol neu lofruddiaeth i'r bobl y maent mewn perthnasau agos neu deuluol â nhw. Mae'r ymyrraeth yn ymgorffori gwaith un i un dwys a gwaith rheoli achosion a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaeth y sector gwirfoddol ochr yn ochr ag ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig dan arweiniad yr heddlu sy'n tarfu ar gyfleoedd i gam-drin ac sy'n lleihau risg.<br>Ers i Drive gael ei ehangu'n llwyddiannus ledled ardal Heddlu De Cymru, a chanolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ar lefel leol a chenedlaethol, mae cyllid newydd ar gael i dreialu'r ymyrraeth mewn ardaloedd Heddlu ychwanegol yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys cyfle i Arweinydd Drive Cymru Gyfan weithio ar draws ardaloedd yr Heddlu sy'n ymwneud â'r peilot gan ganolbwyntio ar oruchwyliaeth Cymru gyfan a chydlynu a datblygu model comisiynu tymor hwy.<br><br>I gael rhagor o fanylion am fodel Drive, gweler Atodiad A. |
| **Prif Gyfrifoldebau** | **Trefniadau Llywodraethu ac Arwain:**<br>• Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cydweithwyr Drive lleol a chynrychiolwyr Drive Canolog, eirioli dros y gwasanaeth a sicrhau nawdd gan uwch-arweinwyr yn yr Heddlu, rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned<br>• Gweithio gyda thîm Drive Canolog, cydweithwyr Drive lleol a rhanddeiliaid i sefydlu'r trefniadau llywodraethu gorau ar gyfer Drive mewn strwythurau llywodraethu lleol sy'n bodoli eisoes yn lleol a ledled Cymru<br>• Sefydlu a chadeirio grŵp Goruchwylio a Chynllunio Drive Cymru Gyfan i fonitro hynt y gwaith gweithredu ac i lywio dull comisiynu yn y dyfodol, gan gynnwys cynrychiolwyr Cenedlaethol a chynrychiolwyr o bob un o'r ardaloedd Heddlu sy'n cymryd rhan yn y peilot.<br><br>**Paratoi safleoedd:**<br>• Cefnogi cydweithwyr Drive lleol i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r safleoedd a ddewiswyd wedi cael eu briffio ar Drive |

| | |
|---|---|
| | • Nodi arweinwyr / cadeiryddion ar gyfer fforymau Drive Cymru Gyfan perthnasol<br>• Cefnogi cydweithwyr Drive lleol i sicrhau bod asiantaethau yn cofrestru ar gyfer yr holl brotocolau rhannu gwybodaeth lleol (Awdurdodau Lleol a'r Heddlu)<br>• Coladu a rhannu gwersi a ddysgwyd yn seiliedig ar y gwaith o weithredu ac ehangu'r cynllun yn Ne Cymru<br>• Rhoi syniad o gryfderau / gwendidau lleol i Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol, Cynhadledd Asesu Risgiau Amlasiantaethol, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, a mynediad at y Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig<br>• Rhoi cefndir ar ddarparwyr lleol presennol ac ymrwymo i ddenu darparwyr posibl<br><br>**Gweithredu a goruchwylio parhaus:**<br><br>Dylai Arweinydd Drive Cymru Gyfan ymwneud â threfniadau goruchwylio'r rhaglen ar ôl y cyfnod paratoi a bydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Drive lleol i nodi ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl a all godi wrth gyflawni gan y rhai sy'n arwain y broses o weithredu. Gall hyn gynnwys y canlynol:<br><br>• Gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth Drive neu reolwyr prosiect i nodi rhwystrau neu feysydd lle y gellid gwella darpariaeth Drive<br>• Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf cenedlaethol ar gyfer prosiect Drive i rannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth o ardaloedd eraill<br>• Cefnogi cydweithwyr Drive lleol i sicrhau bod y prosesau rhannu gwybodaeth rhwng Drive a'r heddlu yn amserol ac yn effeithiol<br>• Bod yn bresennol yn y gweithgorau a'r grwpiau strategol sy'n goruchwylio gweithrediadau Drive<br>• Coladu a rhannu gwersi a ddysgwyd a data ar draws safleoedd newydd i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau / gwasanaethau uwch a ddarperir<br>• Defnyddio'r dystiolaeth a'r mewnbwn sydd ar gael gan bartneriaid allweddol i lywio unrhyw brosesau ehangu eraill ac i lywio cynllunio hirdymor.<br><br>**Prosesau**<br>• Ymgysylltu â Chomisiynwyr a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i adeiladu rhwydwaith o bartïon â diddordeb er mwyn llywio a datblygu dull comisiynu yn y dyfodol<br>• Defnyddio gwersi a ddysgwyd o safleoedd cyflawni i ddatblygu model comisiynu Cymru gyfan cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ansawdd darpariaeth, cysondeb a gwerth am arian<br>• Ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Drive Canolog er mwyn datblygu amserlen comisiynu sy'n ymgorffori cylchoedd ariannu i gynllunio<br>• Dilyn, creu, gwella a sicrhau ansawdd prosesau i'w defnyddio gennych chi ac eraill mewn perthynas â Phrosiect Drive<br>• Dilyn prosesau a roddwyd ar waith gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |

| | |
|---|---|
| | • Gweithio gan ddilyn y prosesau a roddwyd ar waith gan dîm Caffael yr Heddlu sy'n arwain gwaith comisiynu cychwynnol (ac unrhyw waith comisiynu dilynol)<br><br>**Cynaliadwyedd Strategol a Chynllunio Hirdymor**<br>• Arwain gwaith datblygu ac ymgorffori strategaeth cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer rhaglen Drive ledled Cymru gan sicrhau cysondeb â chylchoedd comisiynu, cyfleoedd ariannu a blaenoriaethau lleol/cenedlaethol.<br>Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o safleoedd cyflawni yn llywio modelau comisiynu a gwasanaethau a ddarperir sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar allu i addasu, gwydnwch, ac ansawdd cyson ar draws pob rhanbarth.<br>Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Drive Canolog a phartneriaid ehangach i sicrhau ymrwymiad, adnoddau a llwybrau sy'n diogelu parhad hirdymor dull Drive y tu hwnt i'r camau peilot ac ariannu cychwynnol.<br><br>**Cadw Cofnodion**<br>• Creu, storio, cynnal, adalw a diweddaru cofnodion/data fel y bo'n briodol i'r rôl, â llaw ac yn electronig<br><br>Yn ogystal, rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt, o reidrwydd, yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd. |
| **Cymwysterau a Phrofiad** | **Hanfodol**<br>• Rhaid meddu ar lefel dda o addysg hyd at lefel TGAU (A-C) o leiaf, sy'n cynnwys Mathemateg a Saesneg, neu allu dangos sgiliau a galluoedd cyfatebol |
| **Sgiliau/Gwybodaeth** | **Sgiliau Hanfodol**<br>• Gallu gweithredu â disgresiwn a chyfrinachedd.<br>• Defnyddio dull cyfrifol ac arloesol o lywio newidiadau trawsnewidiol ar draws gwasanaethau a hanes o reoli prosiectau yn effeithiol<br>• Tystiolaeth o gynllunio strategol a gwaith partneriaeth<br>• Trefnus â'r gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhyngbersonol a rhwydweithio cryf<br>• Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a bod yn hyddysg mewn rhaglenni Microsoft.<br><br>**Dymunol**<br>• Cymraeg Iaith Lefel 2 – Yn gallu deall hanfod sgwrs, cyfleu gwybodaeth sylfaenol, cyfrannu at gyfarfodydd, trosglwyddo galwadau ffôn ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Hefyd, yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad.<br>• Profiad o sefydlu mentrau peilot, addasu gwasanaethau a chynnig argymhellion o ran cynllunio prosesau gweithredu |

<table>
<tr><td></td><td>Gwybodaeth Hanfodol<ul><li>Dealltwriaeth dda o'r tirlun cam-drin domestig lleol a'r trefniadau llywodraethu a strwythurau</li><li>Cysylltiadau cryf ag asiantaethau fel asiantaethau cyfiawnder troseddol, sefydliadau gwirfoddol a darparwyr gwasanaeth lleol</li><li>Dealltwriaeth o gomisiynu/cyllid</li><li>Y gallu i esbonio ac eirioli dros Drive i asiantaethau eraill</li><li>Rhaid bod gennych brofiad o reoli perfformiad ac adrodd.</li><li>Gwybodaeth hanfodol am y Ddeddf Diogelu Data 2018</li><li>Y gallu i adnabod risgiau posibl ac uwchgyfeirio i uwch-arweinwyr yn briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="8">Rhinweddau Personol</td><td>Gwasanaethu'r Cyhoedd</td></tr>
<tr><td>Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt<br>Sicrhau bod pob aelod o’r staff yn deall disgwyliadau, anghenion a phryderon cymunedau gwahanol, ac yn ceisio mynd i'r afael â nhw<br>Ennyn hyder y cyhoedd drwy ymgysylltu'n weithredol â chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid gwahanol<br>Nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i gymunedau gwahanol<br>Deall safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid a chydweithio â nhw i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd, gan ennyn hyder y cyhoedd</td></tr>
<tr><td>Proffesiynoldeb</td></tr>
<tr><td>Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu<br>Gweithredu ar eich menter eich hun i fynd i'r afael â materion, gan ddangos egni a phenderfyniad i wneud pethau.<br>Cymryd perchenogaeth dros ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a allai fod yn heriol<br>Cynnal safonau proffesiynol, gan fod yn esiampl i eraill a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol<br>Bod yn ddigyffro ac yn broffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro a bod yn barod i wneud penderfyniadau amhoblogaidd neu gymryd rheolaeth pan fo angen</td></tr>
<tr><td>Arwain Newid</td></tr>
<tr><td>Yn gadarnhaol am newid, gan ymaddasu i amgylchiadau sy'n newid ac annog hyblygrwydd ymhlith eraill<br>Nodi a gweithredu gwelliannau i'r broses o ddarparu gwasanaethau, gan ymgysylltu â phobl yn y broses newid a'u hannog i gyfrannu syniadau<br>Dod o hyd i ffyrdd mwy costeffeithiol o wneud pethau, gan ddefnyddio dull arloesol o ddatrys problemau ac ystyried opsiynau amgen radical<br>Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a pharhau i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun.</td></tr>
<tr><td>Arwain Pobl</td></tr>
<tr><td></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Ysbrydoli pobl i gyflawni nodau heriol, gan gynnal momentwm ar gyfer newid.<br>Rhoi cyfarwyddiadau a nodi disgwyliadau yn glir<br>Siarad yn gadarnhaol am blismona, gan ennyn brwdfrydedd ac ymroddiad<br>Cymell staff drwy roi canmoliaeth wirioneddol, gan dynnu sylw at lwyddiant a chydnabod perfformiad da<br>Rhoi adborth gonest ac adeiladol er mwyn helpu pobl i ddeall eu cryfderau a'u gwendidau<br>Buddsoddi amser i ddatblygu pobl drwy eu hyfforddi a'u mentora, gan gynnig cyfleoedd datblygiadol i staff a'u hannog i dderbyn cyfrifoldebau newydd |
| | **Rheoli Perfformiad** |
| | Troi strategaeth yn gynlluniau ac yn gamau gweithredu penodol gan reoli blaenoriaethau croes yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael<br>Mynd ati mewn ffordd gynlluniedig a threfnus i gyflawni amcanion, gan bennu amserlenni a chanlyniad clir<br>Nodi cyfleoedd i leihau costau a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian<br>Dangos meddwl blaengar, gan ragweld problemau a mynd i'r afael â nhw cyn iddynt godi<br>Dirprwyo cyfrifoldebau'n briodol a grymuso eraill i wneud penderfyniadau<br>Monitro cynnydd a dwyn pobl i gyfrif am gyflawniad, gan dynnu sylw at arferion da a mynd i'r afael â thanberfformiad yn effeithiol |
| | **Gwneud Penderfyniadau** |
| | Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd<br>Ystyried ystod o opsiynau posibl, gan werthuso tystiolaeth a cheisio cyngor lle y bo'n briodol<br>Gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau, gan adolygu'r rhain yn ôl yr angen<br>Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau<br>Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd |
| | **Cydweithio ag Eraill** |
| | Meithrin cydberthnasau gwaith effeithiol â phobl drwy gyfathrebu clir a dull cydweithredol o weithio<br>Bod yn weladwy drwy ryngweithio a siarad â phobl yn rheolaidd<br>Ymgynghori’n eang a chynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau, gan siarad â nhw mewn ffordd y maent yn ei deall ac y gallant ymgysylltu â hi<br>Trin pobl â pharch ac urddas, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau, gan hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu<br>Trin pobl fel unigolion, gan ddangos doethineb, empathi a thosturi<br>Hyrwyddo syniadau yn argyhoeddiadol, gan nodi manteision dull gweithredu penodol a cheisio dod o hyd i atebion sydd o fudd i'r ddwy ochr<br>Mynegi eich barn eich hun yn gadarnhaol ac yn adeiladol, gan ymrwymo'n llawn i benderfyniadau'r tîm |

| NODER: |
|---|
| Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac efallai, o bryd i'w gilydd, y bydd angen cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â gradd a natur cyffredinol y swydd. At hynny, gall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod amrywio a/neu gael eu datblygu rhywfaint heb newid natur gyffredinol y swydd.<br>Ac eithrio unrhyw Ddirprwy a benodir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ni ddylai staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgymryd â gwaith gwleidyddol ond mae'n ofynnol iddynt weithredu mewn ffordd sy'n sensitif ac sydd wedi'i llywio'n llwyr gan gyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfrifoldebau plismona, diogelwch cymunedol, diogelu'r cyhoedd a chyfiawnder troseddol y CHTh. Bydd deiliad y swydd mewn swydd sy'n wleidyddol gyfyngedig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n ofynnol i SCHTh ymgymryd â'i rôl mewn ffordd sy'n ystwyth ac yn ymateb i fudd y cyhoedd, gan ddangos atebolrwydd uniongyrchol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r cyhoedd ac ystyried prosesau goruchwylio a chraffu cefnogol ar gyfer trefniadau Panel yr Heddlu a Throseddu a threfniadau'r pwyllgor archwilio annibynnol. Ochr yn ochr â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae SCHTh yn ymgymryd â'i rolau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu a'r cyhoedd, asiantaethau partner yn y sector preifat a'r trydydd sector ar bob lefel, â llywodraeth lleol a chenedlaethol ac â'r cyhoedd.<br>Oherwydd natur y rôl, efallai y bydd cynnwys y portffolio yn newid yn unol â deddfwriaeth, polisi'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a blaenoriaethau SCHTh. Caiff y meysydd gwaith eu pennu gan y blaenoriaethau a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu felly mae'n bosibl y caiff y meysydd portffolio eu diwygio neu eu hailbennu i fod yn gyson â'r blaenoriaethau hyn. Rhaid i bob cyflogai gydymffurfio â'r nodweddion cyfrinachedd a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Canllawiau ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI) a'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol (y byddwch yn rhwym wrthi am oes). |

Rhaid i bob unigolyn o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid iddo ddangos y gallu i gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle ni chaniateir ymddygiad amhriodol. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

### Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod yn unig am mai'r rhain yw'r adrannau a fydd yn cael eu hystyried yng nghamau rhestr fer eich cais.

| | Rhestr fer |
|---|---|
| Cymwysterau | |
| Sgiliau | ✓ |
| Gwybodaeth | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Gwasanaethu'r Cyhoedd | |
| Rhinwedd Bersonol – Proffesiynoldeb | |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Newid | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Pobl | |
| Rhinwedd Bersonol – Rheoli Perfformiad | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Gwneud Penderfyniadau | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Gweithio gydag Eraill | |